PA MOR DDA YDYCH CHI'N ADNABOD DUW?

Nodyn i'r siaradwr:
Mae adnabod Duw yn cynnwys mwy na gwybod ffeithiau amdano. Rhaid i ni ddod yn hollol gyfarwydd â gweithredoedd a safonau Jehofa, a gweithredu mewn harmoni â'r wybodaeth honno. Ysgoga'r gwrandawyr i ddod i adnabod Jehofa yn dda ac i ennill ei gymeradwyaeth

MAE DOD I ADNABOD DUW YN GOLYGU "BYWYD TRAGWYDDOL" (4 mun.)

Mae'r rhai sy'n dod i adnabod Jehofa Dduw a'i Fab yn cael y gobaith o fywyd tragwyddol **[Darllena Ioan 17:3]**

Er mwyn ennill bywyd tragwyddol, mae'n rhaid gwneud mwy na chydnabod bodolaeth Duw neu wybod rhai ffeithiau amdano (Iag 2:19)

Dydy honni ein bod ni'n adnabod Duw a Iesu ddim yn digon i wneud ein haddoliad yn dderbyniol iddo (Mth 7:21-23)

Roedd gan y Samariaid rywfaint o wybodaeth am Jehofa, ond roedden nhw'n 'addoli heb wybod beth yr oedden nhw yn ei addoli' (In 4:22-24; *w02*-E 7/15 15 ¶1-3)

SUT GALLWCH CHI DDOD I ADNABOD JEHOFA? (10 mun.)

Darllenwch y Beibl yn rheolaidd; talwch sylw i briodoleddau, teimladau, penderfyniadau, a gweithredoedd Duw, a myfyriwch arnynt (Sal 77:11, 12)

Wrth ddarllen, gofynnwch i chi'ch hun, 'Beth mae hyn yn ei ddysgu i mi am Jehofa?' (*cl*-E 312 ¶7-8)

Ymdrechwch i efelychu Jehofa pan ydych yn gwneud penderfyniadau (Eff 5:1)

Pan welwch y canlyniadau da o wneud penderfyniadau duwiol, cewch ddeall *pam* y mae Jehofa yn teimlo fel y mae am y ffordd mae'n dymuno inni fyw ein bywydau

Siaradwch â Jehofa mewn gweddi yn aml (*w14*-E 2/15 25 ¶18-21)

Gofynnwch i Jehofa eich helpu i dyfu mewn gwybodaeth ohono, ac i roi ar waith yr hyn rydych yn ei ddysgu (Lc 11:13; *w11*-E 12/15 16-17 ¶18-19; *w04*-E 12/15 14-15 ¶12-14)

Cryfhewch eich perthynas agos a phersonol gyda Jehofa

Mae'r rhai sydd â'r fath berthynas yn ymwybodol fod gan Jehofa ddiddordeb cariadus ynddyn nhw, ac yn gwybod bod eu hymddygiad yn cael effaith arno (*w15*-E 4/15 22-23 ¶14, 16; *w11*-E 7/1 10)

Mae Abraham yn esiampl o un a adeiladodd berthynas agos gyda Duw (Iag 22:23; *w14*-E 2/15 21-22 ¶3-5)

DANGOSWCH EICH BOD CHI'N ADNABOD DUW (13 mun.)

Mae ufuddhau i orchmynion Duw yn rhan hanfodol o'i adnabod **[Darllena 1 Ioan 2:4]**

Yn aml, roedd cenedl Israel gynt yn anufudd i Dduw

Er nad oedden nhw wedi anghofio Jehofa, roedd eu gweithredoedd yn dangos nad oedden nhw'n ei wir adnabod (Ho 4:1, 6; *it*-2-E 181 ¶3; *jd*-E 57-59 ¶4-6)

I'r gwrthwyneb, roedd y Brenin Joseia "yn gwneud beth oedd yn gyfiawn ac yn deg." Fe ddangosodd drwy ei weithredoedd ei fod yn adnabod Duw (Jer 22:15, 16, *beibl.net; jr*-E 140-142)

Rydym yn dangos ein bod ni'n adnabod Duw drwy ddilyn ei ganllawiau ym *mhob* agwedd o'n bywydau, hyd yn oed mewn materion personol fel ein bywyd teuluol (*lv* 41-43 ¶12-14)

Dylai gwŷr fod fel Crist, yn dangos cariad at eu gwragedd yn breifat ac yn gyhoeddus (Eff 5:28, 29 *w09*-E 5/15 19-20)

Dylai gwragedd ddangos parch at awdurdod eu gŵyr, a'u helpu nhw i gyflawni eu rhan fel pen y teulu (Eff 5:22; *w09*-E 7/15 9 ¶8-10)

Dylai plant ddilyn rheolau'r Beibl, a gwrando ac ufuddhau i'w rhieni, hyd yn oed os nad ydy'r rhieni yn bresennol (Eff 6:1-3; *yp2*-E 136-141)

Cymdeithaswch gyda'r rhai sy'n adnabod ac yn caru Jehofa

Wrth ddewis cymdeithasu â'r rhai mae Jehofa yn ei wrthod, mi fydden ni'n pellhau oddi wrtho (Sal 15:1-5)

Mae hyn yn cynnwys pwy bynnag rydyn ni'n gwahodd i'n cartrefi trwy gyfrwng adloniant (Sal 97:10)

Rydyn ni'n mynegi ein cariad at Jehofa drwy garu'r rhai y mae Duw yn ei garu (1In 4:8)

Wrth i ni brofi ein bod yn wir adnabod Duw, y mae Duw yn dod i'n hadnabod ni hefyd (Ga 4:9; 2Ti 2:19; *w11*-E 9/15 25 ¶1-4)

MAE'R RHAI SY'N ADNABOD DUW YN MWYNHAU BENDITHION (3 mun.)

Mae cael ein hadnabod gan Dduw yn golygu bod gennyn ni ei gymeradwyaeth

Mae Jehofa yn gofalu'n ffyddlon am y rhai y mae'n eu hadnabod (2Cr 16:9a; *w14*-E 4/15 31 ¶17-20)

Wrth ddod i adnabod Jehofa nawr, mae'r gobaith gennyn ni o'i adnabod am byth

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169]

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania